PAPURAU BUSNES

Rhan 1 – Adran D

Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 21/03/01

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

Peter Rogers (Gogledd Cymru); A wnaiff ddatgan p'un a fu oedi gyda thaliadau Tir Mynydd oherwydd bod rhan o'r daliad wedi'i gofrestru yn Lloegr. WAQ10602)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

Alun Cairns (Gorllewin De Cymru); Pa fesurau diogelwch sydd wedi'u sefydlu i warchod buddiannau trigolion pan fo cynlluniau ar waith i leoli gorsaf ffonau symudol. (WAQ10659)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa gynigion sydd ganddi ar gyfer hyrwyddo diwylliant yng Nghaerdydd. (WAQ10697)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa asesiad a wnaed o nifer y trysorau celf yng Nghymru nad ydynt yn cael eu harddangos i'r cyhoedd. (WAQ10698)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff roi manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r bobl sy'n cyfateb iddi yn Llundain a Chaeredin ynghylch darparu Oriel Genedlaethol yng Nghaerdydd, a'r profiad yn Llundain a Chaeredin. (WAQ10699)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff roi manylion unrhyw

gyfarfodydd y mae wedi'u cynnal ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop 2008. (WAQ10644)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A yw'n bwriadu cynnal unrhyw gyfarfodydd ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd mewn perthynas â chais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop 2008. (WAQ10645)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff roi manylion unrhyw gyflwyniadau y mae wedi'u derbyn gan Ddinas Caerdydd ynghylch cais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant 2008. (WAQ10646)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff gyhoeddi manylion unrhyw gyfarfodydd y mae wedi'u cynnal ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd mewn perthynas â defnyddio Stadiwm y Mileniwm i gynnal Rownd Derfynol Cwpan yr FA. (WAQ10647)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff roi manylion unrhyw gyfarfodydd y mae'n bwriadu eu cynnal ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd mewn perthynas â defnyddio Stadiwm y Mileniwm i gynnal Rownd Derfynol Cwpan yr FA. (WAQ10648)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A yw'n bwriadu cynnal unrhyw gyfarfodydd ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd mewn perthynas â hyrwyddo Diwylliant yng Nghaerdydd. (WAQ10649)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A yw wedi cynnal unrhyw drafodaethau ag Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd ynghylch y posibilrwydd o leoli Oriel Genedlaethol ar gyfer Cymru yng Nghaerdydd. (WAQ10650)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Faint o gyflwyniadau y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â'r bygythiad i gau ysgolion bach ym Mhowys. (WAQ10700)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Beth oedd ei hymateb i'r cyflwyniadau y mae wedi'u derbyn ynghylch y bygythiad i gau ysgolion bach ym Mhowys. (WAQ10701)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Faint o gyflwyniadau y mae wedi'u derbyn ynghylch y bygythiad i gau ysgolion bach yn Sir Benfro. (WAQ10702)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Beth oedd ei hymateb i'r cyflwyniadau y mae wedi'u derbyn ynghylch y bygythiad i gau ysgolion bach yn Sir Benfro. (WAQ10703)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff roi manylion unrhyw gyflwyniadau y mae wedi'u derbyn ynghylch polisi ysgolion bach ar gyfer Cymru. (WAQ10651)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff hi roi manylion unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal â chynrychiolwyr Addysg Uwch yng Nghymru ynghylch a fyddai'r Fagloriaeth Gymreig yn ddymunol ai peidio. (WAQ10652)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); P'un a oes ganddi unrhyw gynlluniau i ddileu ffïoedd hyfforddi yng Nghymru. (WAQ10653)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A ddyrannwyd arian ychwanegol o San Steffan mewn perthynas ag atgyweirio difrod gan lifogydd ar gyfer 2000/2001 yng Nghymru. (WAQ10704)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau a fu rhyngddi a'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch sicrhau arian ychwanegol ar gyfer atgyweirio difrod gan lifogydd ar gyfer 2000/2001 yng Nghymru. (WAQ10705)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A ddyrannwyd arian ychwanegol o San Steffan mewn perthynas ag amddiffynfeydd llifogydd yng Nghymru ar gyfer 2001/2002. (WAQ10706)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau a fu rhyngddi a'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch sicrhau arian ychwanegol ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd yng Nghymru ar gyfer 2001/2002. (WAQ10707)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa gyflwyniadau y mae wedi eu derbyn o ran lefel treth y cyngor ym Mhowys am y flwyddyn gyfredol. (WAQ10654)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa gyflwyniadau y mae wedi'u derbyn o ran lefel treth y cyngor yng Ngheredigion ar gyfer y flwyddyn gyfredol. (WAQ10655)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff hi roi manylion unrhyw gynigion sydd ganddi i geisio cael arian Ewrop o raglenni iechyd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o hybu iechyd ac addysg yng Nghymru. (WAQ10708)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff hi ystyried sefydlu Ymddiriedolaeth Gofal, fel cynllun peilot, yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr. (WAQ10656)

Gofyn i'r Trefnydd

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); A wnaiff sicrhau bod y Weinyddiaeth yn darparu amser i drafod effaith Ewrop ar bolisi'r Cynulliad. (WAQ10709)

Gofyn i'r Prif Weinidog

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pa drafodaethau y mae'r Weinyddiaeth yn eu cynnal er mwyn rhwystro lleihad yn nifer ASEau Cymru o ganlyniad i ehangu'r Undeb Ewropeaidd. (WAQ10710)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pryd bydd copi terfynol y protocol drafft rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth San Steffan, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2000 ac sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth, yn cael ei gwblhau. (WAQ10657)

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Pam y cafwyd oedi cyn cwblhau copi terfynol y protocol drafft rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth San Steffan, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2000 ac sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth. (WAQ10658)